



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

18^{fed} Mawrth 2019

Ystafell y Pwyllgor

Yn bresennol

Bruce Fraser Wight (BFW)

Anna Wyn (AW)

Molly Longden (ML)

Ryan Beasley (RB)

Olympia Petrou (OP)

Alice Raven (AR)

Dan Steward (DS)

Alan Roberts (AR)

Louisa Fletcher (LF) drwy skype

- Llywydd a Chadeirydd UMPA

- Swyddog Diwylliant Cymreig UMPA, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr

- Swyddog Llesiant ac Ymddiriedolwr UMPA

- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

- Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

- Ymddiriedolwr Ôl-raddedigion UMPA

- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

- Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr

Yn bresennol

Trish McGrath (TM)

Anmarie Evans (AE)

- Prif Weithredwr UMPA

- Cynorthwydd Gweithredol UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan Meg Hatfield a Peter Curran.

2. Datganiadau o Fuddiannau

Doedd dim datganiadau o fuddiannau.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 18^{fed} Ionawr 2019.

Cymeradwywyd

4. Materion sy'n Codi

Llawlyfr Staff - bydd yn symud i agenda'r cyfarfod nesaf.

Gweithredu - OP

Grant bloc - cynhaliwyd trafodaethau gyda Thîm Cyllid y Brifysgol ynghylch cais yr Ymddiriedolwyr i geisio sicrhau cyllideb am 3 blynedd. Yn anffodus, oherwydd yr hinsawdd addysg bresennol, ni allant edrych y tu hwnt i 1 flwyddyn.

Nodwyd

Dyledwyr hir-dymor - Mater o amseru pan fydd y cyflogau'n mynd allan a'r grant bloc yn dod i mewn. Efallai y byddwn yn ystyried cynnwys rhestr o ddyledwyr yn y cyfrifon rheolaeth.

Gweithredu - Trish

STRATEGAETH

5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth

Rhoddodd TM eglurhad o'r Cyfrifon Rheolaeth hyd yn hyn a dywedodd eu bod bellach yn cynnwys rhagolygon ac amrywiad newydd ar gyfer y gyllideb. Y prif bethau i'w nodi o'r cyfrifon oedd:

Costau ychwanegol o £3k - cyngor ar sut i godi'r dreth newydd - dirwyn Masnachu i ben - ail-gofrestru ein TAW. Bydd TM yn anfon eglurhad o hyn drwy e-bost. **Gweithred - TM**

Cardiau teithio Mid Wales Travel - heb anfonebu eto - ond byddant yn y set nesaf o gyfrifon.

Mae *Totum* UCM i lawr yn sylweddol - blwyddyn wael ofnadwy, 50% yn is o gymharu â llynedd, sy'n rhywbeth y mae'r holl UMaau yn ei wynebu. Cyngorodd AR y dylem edrych ar sefyllfa Gwasanaethau UCM Cyf.

Glas-fyfyrrwyr - mae incwm wedi gostwng. Anodd cael busnesau lleol i ddod, ac mae'n cynnwys cytundeb Tesco - sy'n cynnwys eitemau fel bwyd, ond nid yw'n dangos fel incwm.

Cafwyd ymholiad ynghylch y rhagolygon ariannol ar gyfer prosiectau gwirfoddoli; bydd TM yn gwirio ac yn adrodd yn ôl drwy e-bost. **Gweithredu - TM**

Cyllideb 2019/20

Rhoddodd TM grynodedb o'r rhesymau y tu ôl i'r Gyllideb ar gyfer 2019/20 ac yn ystod yr eglurhad, yr eitemau a drafodwyd oedd:

Yswiriant TîmAber. Cytunodd y Bwrdd fod angen cynyddu'r swm i £4 ond gofynnodd am gyfathrebu'n onest â myfyrwyr i esbonio pam bod y gost yn cynyddu.

Gweithredu - TM

Superteams - nid ydym mewn gwirionedd yn ystyried cost oriau staff yn y gyllideb ar gyfer hyn, felly byddwn yn asesu yn ystod y flwyddyn pan fyddwn yn ail-lunio ein rhagolygon. Ar y cyfan, teimlai'r Ymddiriedolwyr ei bod yn fater o gyfathrebu - yr hyn yr ydym yn ei esbonio i Fyfyrrwyr, sut mae'r gost yn cael ei rhannu, i fod yn dryloyw am yr hyn sy'n cael ei wario a pham mae'r gost yn cynyddu. Pam ei fod yn ddigwyddiad mor dda, gan sicrhau ei ddelwedd gadarnhaol.

Nodwyd

BUCS - angen cydbwysu faint o dimau y gallwn eu cynnal.

Gweithredu - TM

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhoddodd TM grynodedb o'i Hadroddiad Prif Weithredwr a oedd yn cynnwys diweddariad o bob adran. Diolchodd yr Ymddiriedolwyr i TM a'r Tîm am yr holl waith gwych sydd wedi bod yn digwydd, ond cwestiynodd RB a oedd y Bwrdd yn gwneud digon i gefnogi TM gyda'i hamcanion wrth eu hadolygu, gan ei bod yn ddyletswydd ar y Bwrdd i wneud hynny. Bydd AE yn ceisio gosod dyddiad yn y calendr i drefnu gwerthusiad ar gyfer TM i gynnwys y Llywydd presennol a'r Llywydd etholedig.

Gweithredu - AE

7. Cofrestr Risg

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r risg o leihad yn nifer y myfyrwyr, ac a yw'n bosib ychwanegu rhywbeth ynghylch diwylliant y sefydliad/gweithle.

Gweithredu - TM

8. Adolygiad Cyflogau

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r adolygiad cyflogau a gynhaliwyd gan TM, a chytunodd y Bwrdd y bydd cyflog Swyddogion yn newid i £18k. Bydd cyflogau Cydlynwyr a Rheolwyr yn aros yr un fath a bydd cynnydd cost byw o 1% yn cael ei roi i staff cymwys, ond bydd cael ei gapio i 1% o gyflog uchaf Cydlynwyr, (£21k). Adolygir hyn yn flynyddol.

Cytunodd y Bwrdd ar hyn

9. Polisiâu a basiwyd ers y cyfarfod diwethaf

- Anfonwyd gwybodaeth am Streic Hinsawdd yr UM allan drwy e-bost eisoes.
- Gwrthdroi Cyllido Chwaraeon - er gwybodaeth.
- Senedd ddydd Llun nesaf - cynnig posibl i adael UCM ond byddwn yn diweddarau yn y cyfarfod nesaf.
- Rhoi Hyfforddiant Cydsyniad i bob aelod o staff a swyddog

10. Unrhyw fusnes arall

Llwyddwyd i gael £23k o arian loteri ar gyfer hyfforddiant atal hunan-laddiad a gwytnwch. Byddwn yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar sut rydym yn bwriadu symud ymlaen â hyn. Bydd taflen weithredu nawr yn cael ei chynnwys ym mhob set o bapurau - **Gweithredu - EE**

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Mae angen aildrefnu'r dyddiad gwreiddiol ym Mehefin. AE i gysylltu â'r aelodau a gosod dyddiad.